# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Hydref 2016

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(14.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.30 - 14.35) (Tudalen 1)

**CLA(5)-08-16 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)017 - Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 - 14.40)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)018 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016**

(Tudalennau 2 - 10)

**CLA(5)-08-16 – Papur 2** – Adroddiad
**CLA(5)-08-16 – Papur 3** – Rheoliadau
**CLA(5)-08-16 – Papur 4** – Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(14.40)

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

## 5 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Blaenraglen waith

(14.40 - 15.10) (Tudalennau 11 - 13)

**CLA(5)-08-16 – Papur 5 –** Blaenraglen waith [Saesneg yn unig]

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**D**ydd Llun 31 Hydref 2016

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

Eitem 2

17 Hydref 2016

## SL(5)017 – Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio tri darn o is-ddeddfwriaeth, fel eu bod yn gymwys i gartrefi symudol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Yn bresennol, mae'r tri darn o is-ddeddfwriaeth yn gymwys i gartrefi symudol dan ddeddfwriaeth Senedd y DU, felly mae angen eu diwygio fel eu bod yn gymwys i gartrefi symudol dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**Fe'u gwnaed ar**: 28 Medi 2016

**Fe'u gosodwyd ar**: 30 Medi 2016

**Yn dod i rym ar**: 31 Hydref 2016

# SL(5)018 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016

## Cefndir a Phwrpas

Caiff person sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio (a rhai materion cysylltiedig) apelio i Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod cynllunio yn penderfynu ar y cais o fewn cyfnod a ragnodir.

Wyth wythnos yw'r cyfnod oni bai y caiff ei ddiwygio cyn i'r awdurdod wneud penderfyniad. Os caiff cais ei ddiwygio cyn i'r awdurdod wneud penderfyniad, y cyfnod oedd un ai pedair wythnos o'r dyddiad y daeth y diwygiad i law'r awdurdod neu 12 wythnos o'r dyddiad y cafwyd y cais gwreiddiol, pa un bynnag oedd hiraf.

Cynyddodd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") y cyfnod ar gyfer penderfynu ar gais o wyth wythnos i 16 wythnos pan fo cais yn ymwneud â datblygiad angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ("AEA").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 57(2) o Reoliadau 2016. Newidir y cyfnod y caniateir apelio ar ei ôl os caiff cais lle mae AEA yn ofynnol ei ddiwygio, ond na wneir penderfyniad yn ei gylch. Mae'r cyfnod hwnnw yn dod yn bedair wythnos o'r dyddiad y daeth y diwygiad i law'r awdurdod neu 20 wythnos o'r dyddiad y daeth y cais sydd angen AEA i law, pa bynnag un sydd hiraf.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, roedd gan y Llywodraeth ddewis o'r weithdrefn i'w defnyddio. Dewiswyd y weithdrefn negyddol am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 2.1–2.2 o'r Memorandwm Esboniadol. Gan mai diwygiad canlyniadol sydd yma, credir bod y dewis yn briodol. [Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod yn codi mater polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Hydref 2016**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

## 2016 Rhif 971 (Cy. 240)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"), caiff person sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, neu am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad a atodir i ganiatâd cynllunio, apelio i Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn penderfynu ar y cais o fewn y cyfnod rhagnodedig.

Mae'r cyfnod wedi ei ragnodi yn erthygl 22(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Wyth wythnos yw'r cyfnod oni bai y caiff cais ei ddiwygio cyn i'r awdurdod wneud penderfyniad. Os caiff cais ei ddiwygio cyn i'r awdurdod wneud penderfyniad, y cyfnod fydd un ai pedair wythnos o'r dyddiad y daw y diwygiad i law'r awdurdod neu ddeuddeng wythnos o'r dyddiad y cafwyd y cais gwreiddiol, pa un bynnag yw'r hiraf.

Mae rheoliad 57(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") yn cynyddu'r cyfnod o wyth wythnos yn erthygl 22(2)(a) i un wythnos ar bymtheg pan fo'r cais yn ymwneud â datblygiad lle mae asesu effeithiau amgylcheddol ("AEA") yn ofynnol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi rheoliad 57(2) newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau 2016. Gall ceisydd apelio ar ôl y cyfnod a ragnodir yn erthygl 22(2) os caiff cais lle mae AEA yn ofynnol ei ddiwygio ond os na chaiff penderfyniad ei wneud yn ei gylch, a daw'r cyfnod hwnnw yn bedair wythnos o'r dyddiad y caiff yr awdurdod y diwygiad neu'n ugain

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

wythnos o’r dyddiad y cafwyd y cais gwreiddiol lle mae AEA yn ofynnol, pa un bynnag yw’r hiraf.

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

Ni ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau cyhoeddus, preifat na gwirfoddol, neu y rhagwelir ychydig iawn o effaith ar y sectorau hynny. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 971 (Cy. 240)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Medi 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Hydref 2016* |
| *Yn dod i rym* | *7 Tachwedd 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd a gaiff prosiectau sy'n debyg o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, i'r graddau y mae'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref(**2**) a thrwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno ac adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2007/1679. Gweler erthygl 4.

(**3**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 71A gan adran 15 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf honno, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, ac yr oedd y swyddogaethau hynny yn swyddogaethau perthnasol y Cynulliad fel y diffinnir "the relevant Assembly functions" ym mharagraff 30(2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Tachwedd 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016**

**2.** Yn lle rheoliad 57(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016(**1**) rhodder—

> "(2) Pan fo awdurdod yn gyfrifol am benderfynu ar gais AEA, mae erthyglau 22 (cyfnodau amser ar gyfer penderfyniadau) a 23 (ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio) o Orchymyn 2012(**2**) yn cael effaith fel pe bai—
>
> (a) pob un o'r cyfeiriadau yn erthygl 22(2)(a) a 23 at gyfnod o 8 wythnos yn gyfeiriad at gyfnod o 16 wythnos; a
>
> (b) y cyfeiriad yn erthygl 22(2)(aa)(**3**) at y cyfnod o 12 wythnos yn gyfeiriad at y cyfnod o 20 wythnos."

**Darpariaeth drosiannol**

**3.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ceisiadau y ceir diwygiadau yn eu cylch gan yr awdurdod ar neu cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
29 Medi 2016

---

(**1**) O.S. 2016/58 (Cy. 28).
(**2**) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801 (Cy. 110))
(**3**) Mewnosodwyd is-baragraff (aa) o erthygl 22(2) gan erthygl 11(b) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/59 (Cy. 29)).

**Explanatory Memorandum to The Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) (Amendment) Regulations 2016.**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Planning Directorate and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) (Amendment) Regulations 2016.

Lesley Griffiths
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs
7 October 2016

## 1. Description

1.1 These Regulations make a consequential amendment to Regulation 57 of the The Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2016.

1.2 Regulation 57(2) of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2016 ("the 2016 Regulations") increases the period of eight weeks in article 22(2)(a) of the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 (DMPWO) to sixteen weeks where an application relates to development which requires an environmental impact assessment ("EIA").

1.3 Regulation **Error! Reference source not found.** of these Regulations substitutes regulation 57(2) of the 2016 Regulations. The period prescribed in article 22(2) after which an applicant can appeal if an application which requires an EIA is amended but not determined, becomes four weeks from the date the amendment is received by the authority or twenty weeks from the date the original application which requires an EIA was received, whichever is the longer.

## 2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

2.1 The Regulations are made under section 2(2) of the European Communities Act 1972. There is a choice of procedure in relation to instruments made under section 2(2) of that Act. Section 71A of the Town and Country Planning Act 1990 confers power to make regulations for environmental impact assessment beyond the requirements of the Directive 2011/92/EU of 13 December 2011.

2.2 Regulations made under section 71A of the Town and Country Planning Act 1990 are subject to the negative procedure. There is no factor indicating that the use of the affirmative procedure should be followed for these Regulations, and the Town and Country Planning (Environmental Assessment) (Wales) Regulations 2016, (which these regulations amend) were made subject to the negative procedure. For these reasons the negative procedure is appropriate in this case.

## 3. Legislative background

3.1 The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers provided by section 2(2) of the European Communities Act 1972 and by section 333 of, and paragraph 1 of Schedule 6 to, the Town and Country Planning Act 1990. The functions under section 71A of the Town and Country Planning Act 1990 cited above were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672. Those functions were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162

of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998.

3.2 The Welsh Ministers were designated by The European Communities (Designation) (No.3) Order 2007 (S.I. 2007/1679) for the purposes of section 2(2) of the 1972 Act, to make regulations *'in relation to the requirement for an assessment of the impact on the environment of projects likely to have significant effects on the environment, in so far as it concerns town and country planning'*.

3.3 The functions under section 71A of the 1990 Act were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672. Those functions were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998.

**4. Purpose & intended effect of the legislation**

4.1 The purpose of this legislation is to substitute Regulation 57(2) of the Town and Country Planning (Environmental Assessment) (Wales) Regulations 2016 to prescribe that the period prescribed in Article 22(2) of the DMPWO 2012 after which an applicant can appeal if an application which requires EIA is amended but not determined becomes four weeks from the date that the amendment is received by the authority, or twenty weeks from the date the original application which requires an EIA is received, whichever is the longer.

4.2 This amendment ensures that where a post submission amendment is made to a planning application subject to EIA it is treated in the same manner as when an amendment is made to a planning application that does not require EIA.

**5. Consultation**

5.1 The provision for adding an additional four weeks to the time-periods set out in Article 22(2) was consulted upon in our consultation titled "Secondary legislation for development management", which ran from 18 Jun 2015 to 10 Sep 2015. Paragraph 7.3 specifically referred to the time periods for determination set out in the EIA Regulations.

5.2 The consultation responses indicated general support for the proposed new extended 4 week time limit. No impact, or minimal impact, on the public, private, or voluntary sectors is foreseen from making this amendment to regulation 57. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon